Tribiwnlys Prisio Cymru
Valuation Tribunal for Wales

# Adroddiad Blynyddol 2024/2025

## Tribiwnlys Prisio Cymru

Carolyn Dawson (Prif Swyddog Gweithredol)

## Tabl Cynnwys


**Adrannau** **Tudalen**

| | |
|---|---|
| Rhagair gan Lywydd Cenedlaethol y Tribiwnlys | 2 |
| Rhagair gan y Prif Weithredwr | 3 |
| Baich gwaith, apelau pellach a chwynion | 4 |
| Mentrau Cymraeg | 8 |
| Aelodaeth | 9 |
| Cyngor Llywodraethu | 12 |
| Staffio | 13 |
| Ystadau, cyfleusterau a thechnoleg | 15 |
| Cyllid | 16 |

**Datganiadau a lofnodwyd gan y Prif Swyddog Gweithredol**
**(yn ofynnol o dan Ddogfen Fframwaith TPC – Llywodraeth Cymru)**

| | |
|---|---|
| Datganiad Llywodraethu | 18 |
| Datganiad Swyddogaethau Swyddog Cyfrifyddu | 19 |

**Atodiadau**

| | | |
|---|---|---|
| **A** | Niferoedd cyfarfodydd tribiwnlys ac achosion a restrwyd | 21 |
| **B** | Data Clirio Apelau 2024/25 | 22 |
| **C** | Dangosyddion Perfformiad Allweddol (KPIs) – tabl canlyniadau | 23 |
| **D** | Diffiniadau KPI ar gyfer 2024/25 | 24 |
| **E** | Gwariant Tribiwnlys Prisio Cymru 2024/2025 | 25 |
| **F** | Strwythur Trefniadaethol | 26 |

# Rhagair gan Lywydd Tribiwnlys Prisio Cymru

**Rhagair y Llywydd Cenedlaethol:**

Mae'r Tribiwnlys wedi cael blwyddyn gymharol dawel o ran apelau, gyda lleihad amlwg yn nifer yr achosion Ardrethu Annomestig (AAN) newydd. Fodd bynnag, cafwyd cynnydd mewn apelau Prisio'r Dreth Gyngor (PDG), yn bennaf oherwydd newidiadau deddfwriaethol sy'n effeithio ar eiddo hunanddarpar.

Yn ystod y cyfnod mwy tawel yma, manteisiodd Tribiwnlys Prisio Cymru (TPC) ar y cyfle i wella ei ddarpariaeth o ran hyfforddiant i'r aelodau a'r cadeiryddion. Mae recriwtio yn flaenoriaeth allweddol o hyd, ac rwyf yn falch fod TPC wedi cymryd rhan flaengar mewn digwyddiadau o bwys ar draws Cymru i godi ymwybyddiaeth am ein gwasanaeth ac i annog aelodau newydd. Rydym yn dal i archwilio ffyrdd amrywiol o ehangu nifer ein haelodau.

Conglfaen ein hymrwymiad i ragoriaeth yw hyfforddiant i'n haelodau a'n staff. Cynhaliwyd diwrnodau hyfforddi cynhwysfawr i'r aelodau, ac mae cyfarfodydd rheolaidd o'r cadeiryddion yn rhoi fforwm gwerthfawr i drafod materion yn ymwneud â'r tribiwnlys. Mae'n hanfodol i'r aelodau ddod i ddigwyddiadau hyfforddi sy'n sicrhau bod ganddynt yr wybodaeth a'r senarios y gallent ddod ar eu traws yn ystod gwrandawiadau. Diolchaf yn wresog i'r Tîm Hyfforddi am eu hymroddiad wrth gyflwyno rhaglen barhaus i'r aelodau a'r cadeiryddion.

Cafwyd newidiadau staffio dros y flwyddyn, gyda phenodiadau newydd a staff yn gadael. Cynhelir hyfforddiant ar gyfer staff sydd newydd benodi yn rheolaidd, ac mae'n dda gen i adrodd bod gennym staff sy'n rhugl yn y Gymraeg, sy'n golygu bod modd clywed apelau yn yr iaith Gymraeg. Ar ben hynny, mae cyfran sylweddol o'n haelodau yn siaradwyr Cymraeg, sy'n golygu bod modd cynnal tribiwnlysoedd yn ddwyieithog. Testun calondid arbennig i mi yw ymrwymiad parhaus TPC i'w fentrau dwyieithog a'i ymdrechion i feithrin amgylchedd cefnogol i ddefnyddwyr gwasanaeth Cymraeg eu hiaith. Mae'r Tîm Cymraeg wedi gweithio'n ddyfal i hyrwyddo'r iaith ac wedi cynhyrchu Polisi Cymraeg cynhwysfawr i TPC.

Gwelwyd datblygu llwyddiannus yn system TG y Tribiwnlys, gan gynnwys lansio porth ar-lein cwbl ddwyieithog i apelyddion. Mae cyflwyno iPads i aelodau ac i gadeiryddion yn gam cadarnhaol tuag at leihau'r defnydd o bapur. Rhoddwyd hyfforddiant yn y defnydd o iPads, ac rwyf yn ddiolchgar i'r tîm TG am sicrhau bod yr aelodau a'r cadeiryddion wedi'u paratoi'n drylwyr i ddefnyddio'r dechnoleg yma yn effeithiol yn ystod tribiwnlysoedd.

Mae'r Cyngor Llywodraethu yn cynnwys tri Chynrychiolydd Cenedlaethol a'r Llywydd. Disgwyliwn benodiad Penodai(-eion) Llywodraeth Cymru yn nes ymlaen eleni. Mae'r Cyngor yn cwrdd yn rheolaidd i oruchwylio busnes TPC, ac mae ei Banel Penodi Aelodau wedi ymgynnull nifer o weithiau i benodi neu i ailbenodi aelodau. Hoffwn ddiolch i'r Cyngor Llywodraethu am eu hymrwymiad parhaus i TPC.

Mae'n destun calondid nodi na chyfeiriwyd unrhyw gŵynion i'r Ombwdsmon, ac un achos yn unig a uwchgyfeiriwyd i'r Uchel Lys. Mae hyn yn adlewyrchu proffesiynoldeb ac effeithiolrwydd ein gwasanaeth.

Yn olaf, hoffwn ddiolch o waelod galon i'r Prif Weithredwr, y Rheolwyr Gweithredol, Clercod y Tribiwnlys, ac i'r staff cymorth am eu hymroddiad a'u gwaith caled. Mae eu hymdrechion yn sicrhau bod y Tribiwnlys yn parhau i roi gwasanaeth proffesiynol, o ansawdd uchel, ac rwyf yn ffyddiog y caiff y safon hon ei chynnal yn y dyfodol.

Gyda fy niolch i bawb sy'n ymwneud â'r gwasanaeth.



**Carol Cobert - Llywydd - Tribiwnlys Prisio Cymru**

# Rhagair gan y Prif Weithredwr

**Rhagair y PSG:**

Mae'n dda gen i gyflwyno adroddiad eleni sy'n adlewyrchu cyfnod o her drefniadaethol a gwydnwch wrth ymaddasu o fewn Tribiwnlys Prisio Cymru (TPC). Mae'r data a'r sylwadau yn yr adroddiad hwn yn tanlinellu ein hymrwymiad i ddidueddrwydd, tryloywder, a gwella'n gwasanaethau'n barhaus ar draws pob maes gwaith.

Dangosodd gweithgareddau apelau Ardrethu Annomestig (AAN) eleni leihad amlwg yn nifer yr achosion newydd a gostyngiad sylweddol yn y rhai a gariwyd ymlaen. Mewn cyferbyniad â hyn, gwelwyd cynnydd dramatig mewn apelau Prisio'r Dreth Gyngor (PDG), yn bennaf oherwydd newidiadau sy'n effeithio ar eiddo hunanddarpar, sy'n dangos sut y gall symudiadau deddfwriaethol ail-lunio'n gyflym y galwadau am ein gwasanaethau.

Ffactor allweddol a effeithiodd ar berfformiad gweithredol TPC eleni oedd trawsnewid systemau TG o fewn Asiantaeth y Swyddfa Brisio (VOA). Roedd rhoi ei system newydd ar waith wedi achosi oedi sylweddol wrth drosglwyddo cynigion Treth Gyngor gan arwain at gais i gyfyngu rhestriadau yn ystod y cyfnod trawsnewid. Er bod gan TPC y capasiti i reoli mwy ohonynt, roedd yn anochel i'r cyfyngiadau hyn effeithio ar ei allu i restru apelau, a hyn yn ei dro yn effeithio ar berfformiad yn erbyn rhai dangosyddion perfformiad allweddol.

Mewn cyferbyniad â hyn, gwelwyd eleni gynnydd ystyrlon o ran ymwneud a chydymffurfio TPC â Safonau'r Gymraeg. O godi ymwybyddiaeth y cyhoedd yn flaengar mewn digwyddiadau fel yr Eisteddfod Genedlaethol, i gydweithio adeiladol â Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg, mae TPC yn dal i gryfhau'r gwasanaeth a ddarperir ac mae'n gwbl ymrwymedig o hyd i roi gwasanaeth cynhwysol i holl ddefnyddwyr y Tribiwnlys.

Mae TPC yn dibynnu'n drwm ar ei aelodaeth wirfoddol ac ewyllys da ei staff sydd yn aml yn ysgwyddo dyletswyddau ychwanegol er mwyn diwallu anghenion y gwasanaeth. Dymunaf estyn fy ngwerthfawrogiad didwyll i'r Cyngor Llywodraethu, i aelodau'r Tribiwnlys, i'r rhanddeiliaid, ac yn arbennig, i'r staff sy'n parhau i sicrhau bod gwasanaeth o ansawdd yn cael ei roi i bobl Cymru.

Er gwaethaf yr amharu systematig, mae TPC yn aros yn gadarn yn ei ymrwymiad i ddatrys anghydfodau yn hygyrch, yn deg ac yn effeithiol i bobl Cymru.

Yn gywir,





**Prif Swyddog Gweithredol - Tribiwnlys Prisio Cymru**

## 1. Baich gwaith, apelau pellach a chwynion

1.1 Ar 1 Ebrill 2024, cariodd y Tribiwnlys 2,601 o apelau Ardrethu Annomestig (AAN) ymlaen o'r flwyddyn flaenorol ac yn ystod y flwyddyn, 79 apêl newydd yn unig a dderbyniwyd. Ymysg y nifer hwn ceir apêl rhestr 2023 gyntaf y Tribiwnlys. Rhestrwyd yr apêl hon i'w chlywed ond cafodd ei datrys rhwng y partïon cyn iddi fedru symud ymlaen at wrandawiad.

1.2 Rhestrodd y Tribiwnlys 2,398 o achosion AAN yn ystod y flwyddyn, 3,437 yn llai na'r flwyddyn flaenorol. Pennwyd cyfanswm o 236 apêl mewn gwrandawiadau tribiwnlys gyda'r rhan fwyaf o apelau a restrwyd yn cael eu setlo trwy ddatrysiad. Esgorodd hyn ar 444 apêl yn unig yn cael eu cario ymlaen i 2025.








1.3 Roedd y baich gwaith ar gyfer apelau Prisio'r Dreth Gyngor (PDG) yn wahanol iawn i'r blynyddoedd blaenorol. Cariwyd 359 o achosion ymlaen o'r flwyddyn flaenorol ac, yn nodweddiadol, mae'r Tribiwnlys yn derbyn tua 1,000 o achosion PDG newydd bob blwyddyn. Fodd bynnag, gwelwyd cynnydd digyffelyb eleni, gyda 1,968 o apelau newydd yn cael eu derbyn rhwng 1 Ebrill 2024 a 14 Ionawr 2025. Y rheswm pennaf am y cynnydd hwn oedd eiddo hunanddarpar yn methu â chyrraedd trothwyau gosod a meddiannu mwy a fyddai'n eu gwneud yn gymwys i gael eu hasesu ar gyfer


adrethu annomestig yn hytrach na'r dreth gyngor. Ers 14 Ionawr 2025, ni throsglwyddwyd cynigion pellach i TPC oherwydd problemau technegol yn system TG newydd Asiantaeth y Swyddfa Brisio (VOA). O ganlyniad, nid yw gwir nifer yr apelau a allasai fod wedi cael eu derbyn yn ystod y flwyddyn adrodd hon ar gael.

1.4 Yn ystod y flwyddyn adrodd, rhestrwyd 842 o apelau PDG i'w clywed, a phenderfynwyd ar 216.

1.5 Gellir priodoli'r nifer cymharol isel o restriadau, er gwaethaf lefelau uwch nag erioed o apelau newydd, yn uniongyrchol i'r VOA yn newid systemau TG. Cyfyngodd y problemau technegol hyn yn sylweddol ar faint o apelau y gallai'r VOA eu prosesu, a hyn yn ei dro yn cyfyngu ar nifer yr achosion y gallai TPC eu rhestru, er bod ganddo'r capasiti i reoli llwyth achosion uwch.




1.6 Ar gyfer pob apêl Treth Gyngor arall, roedd y niferoedd wedi aros yn gyson â'r blynyddoedd blaenorol. Cariodd TPC 50 o apelau ymlaen a derbyniodd 88 dros y flwyddyn adrodd. Cafwyd 154 o restriadau yn y categori apêl hwn a phenderfynwyd 73 o achosion, cynnydd ar y flwyddyn flaenorol. Mae'r math yma o apêl yn gweld y nifer mwyaf o bobl yn bresennol mewn Tribiwnlys yn gyson.




1.7 Derbyniodd TPC gyfanswm o 26 apêl Gymraeg. Gan gynnwys y rhai hyn a dderbyniwyd a'r apelau hynny a ddygwyd ymlaen, rhestrwyd 24 apêl Gymraeg i'w clywed: gohiriwyd neu oedwyd 7, ac aeth 6 ymlaen i wrandawiad llawn mewn tribiwnlys.

1.8

1.9 Dangosir y crynodeb cyffredinol o lwyth achosion TPC ar gyfer 2024-25 isod:

| Math ar Apêl | Apelau a ddygwyd ymlaen o flynyddoedd blaenorol | Achosion ychwanegol a dderbyniwyd mewn blwyddyn | Achosion a benderfynwyd | Achosion heb eu penderfynu ar ddiwedd y flwyddyn |
|---|---|---|---|---|
| Rhestr AAN 2010 | 65 | 0 | 61 | 4 |
| Rhestr AAN 2017 | 2536 | 55 | 2152 | 439 |
| Rhestr AAN 2023 | 0 | 1 | 1 | 0 |
| AAN Amrywiol | 0 | 25 | 24 | 1 |
| Treth Gyngor | 409 | 2071 | 1751 | 729 |
| CYFANSWM | 3010 | 2152 | 3989 | 1173 |

1.10 Cyflawnodd y Tribiwnlys 7 o'i 10 Dangosydd Perfformiad Allweddol (KPI) sy'n gysylltiedig â baich gwaith eleni. Y 3 a fethwyd oedd:

1.10.1 Rhestru apelau Treth Gyngor (prisio ac atebolrwydd) o fewn 6 mis ar ôl eu derbyn
1.10.2 Clirio apelau Treth Gyngor (prisio ac atebolrwydd) o fewn 12 mis ar ôl eu cyflwyno, a,
1.10.3 Adolygiad ADG o geisiadau penderfyniad fel canran o achosion ADG a benderfynwyd.

1.10 Yn y flwyddyn aeth heibio, cafwyd 691 o restriadau tro cyntaf ar gyfer apelau Treth Gyngor. O'r rhain, rhestrwyd 503 (73%) o fewn yr amserlen darged o chwe mis ar ôl eu derbyn gyda tharged o 95%. Digwyddodd y tanberfformio yma yn ystod cyfnod o her weithredol anragweladwy:

- Dyblodd nifer yr apelau a gyflwynwyd o'u cymharu â'r niferoedd a gofnodwyd o flwyddyn i flwyddyn.
- Hanerwyd y rhestriadau er mwyn cynorthwyo rhoi system TG newydd Asiantaeth y Swyddfa Brisio (VOA) ar waith.

Er gwaethaf y cyfyngiadau hyn, roedd y rhan fwyaf o'r apelau yn dal i gwrdd â'r targed rhestru chwe mis, gan adlewyrchu cryn ymdrech o dan amgylchiadau eithriadol.

1.11 Anelodd TPC at glirio 95% o apelau Treth Gyngor o fewn 12 mis ar ôl eu cyflwyno. Eleni, roedd 171 allan o 1736 o gliriadau'n ymwneud ag achosion oedd yn fwy na 12 mis oed; mewn gwirionedd, roedd 9.9% o'r achosion hynny a gliriwyd wedi cael eu rhestru fel apelau am dros 12 mis cyn iddynt gael eu datrys. Roedd hyn yn bennaf oherwydd y cynnydd annisgwyl yn y nifer o apelau prisio Treth Gyngor a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn hon a'r ffaith y gofynnwyd i TPC leihau rhestriadau er mwyn cynorthwyo'r VOA pan oedd ei system TG yn cael ei diweddaru.

1.12 Gosodwyd y targed ar gyfer ceisiadau adolygu penderfyniad ADG ar 5%. Derbyniodd TPC gyfanswm o 7 cais o 73 o benderfyniadau. Esgorodd hyn ar ganlyniad o 9.6%.

*Apelau Pellach*

1.13 Yn ystod y flwyddyn, apeliwyd 1 penderfyniad Treth Gyngor i'r Uchel Lys. Ni fu'r achos hwn yn llwyddiannus ac yn dilyn Penderfyniad yr Uchel Lys gofynnodd yr Awdurdod Bilio am ganiatâd i apelio i'r Llys Apêl, er hynny, cafodd hyn ei wrthod.

*Cwynion*

1.14 Ni chodwyd unrhyw gŵynion yn erbyn y Tribiwnlys gydag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru eleni.

## 2 Mentrau Cymraeg

2.1 Mynychodd staff TPC yr Eisteddfod Genedlaethol ym Mhontypridd ar 9 Awst lle cynhalion nhw stondin yn hwb y sector gwirfoddol ar y Maes. Y nod oedd codi ymwybyddiaeth am beth rydyn ni'n ei wneud, ac ymgysylltu ag ymwelwyr yn Gymraeg a Saesneg. Hefyd, roedden ni wedi gobeithio hybu diddordeb mewn dod yn aelod o'r Tribiwnlys, yn enwedig ymhlith siaradwyr Cymraeg.

2.2 Yn ystod hydref 2024 cynhaliodd Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg (CyG) ymarfer 'siopwr dirgel' yn TPC oedd yn cynnwys galwadau ac ebyst dienw yn ogystal ag edrych ar ein gwefan ac unrhyw ddogfennau wedi'u postio arni. Nodwyd rhai materion ynglŷn â chynnwys ein gwefan ac mae'n dda gen i adrodd eu bod wedi'u datrys erbyn hyn. Fodd bynnag, ar y cyfan derbyniodd TPC adborth calonogol a chadarnhaol.

2.3 Trwy gydol y flwyddyn, cymerodd Tîm Cymraeg, sy'n cael ei arwain gan staff mewnol TPC, ran mewn nifer o webinarau gan CyG sy'n adlewyrchu ymrwymiad parhaus TPC i gefnogi cydymffurfiad cyson â Safonau'r Gymraeg.

2.4 Yn unol â'r cydweithio yma, cwrddais i â swyddogion CyG a Catrin Jones a chwblhau holiadur o'r enw *Cyd-Reoleiddio i Gyrraedd y Nod.* Cynlluniwyd hwn er mwyn archwilio i fentrau cymorth posibl gan CyG yn y dyfodol.

2.5 Mae'r Tîm wedi gweithio'n galed yn ystod y flwyddyn adrodd hon. Maen nhw wedi cynhyrchu Polisi Cymraeg, Cofrestr Risg Gymraeg, wedi casglu data gan y staff ynglŷn â gallu yn y Gymraeg ac anghenion o ran hyfforddiant, yn ogystal â dechrau datblygu rhestr termau, at ddefnydd mewnol yn y lle cyntaf, ond a all gael ei ddatblygu, gobeithio, at ddefnydd aelodau'r cyhoedd sy'n dymuno defnyddio'r Gymraeg wrth i'w hachos gael ei glywed.


2.6 Ar ben hynny, trefnodd y Tîm ddigwyddiad hyfforddi ar 'Hybu Dwyieithrwydd yn Ein Cyfundrefn' a gynhaliwyd ar gyfer holl aelodau'r Tribiwnlys ar ddiwedd y flwyddyn adrodd hon. Cafwyd presenoldeb da yn y sesiwn, a gyflwynwyd gan Bethan Williams a Kathryn Jones o gwmni Iaith - y Ganolfan Cynllunio Iaith - ac a dderbyniodd groeso mawr gan bawb.

*Ehangu'r Tîm a Nodau'r Dyfodol*

2.7 Unwaith eto, penodwyd aelodau staff newydd yn ystod y flwyddyn adrodd a gryfhaodd y capasiti Cymraeg o fewn TPC. Ehangodd y Tîm o 4 i 5 yn haf 2024.

2.8 Mae TPC wedi'i ymrwymo o hyd i hybu ei fentrau dwyieithog a meithrin amgylchedd cefnogol i'r Gymraeg ar gyfer aelodau'r cyhoedd sy'n defnyddio ei wasanaethau ynghyd â'i weithwyr cyflogedig.

## 3 Aelodaeth




3.1 Ar ddechrau eleni, cyfanswm yr aelodaeth oedd 63. Cynnydd o un o'r flwyddyn flaenorol.

Yn ystod y flwyddyn adrodd, daeth 10 aelodaeth i ben. O'r 10 a ddaeth i ben, cafodd 6 eu hailbenodi, ac ymddiswyddodd 1 aelod. Gyda 4 penodiad newydd yn 2024, y canlyniad oedd colli 1 aelod o'n haelodaeth gyffredinol.

3.2 Felly, ymlaen â chenhadaeth TPC, yn mynd amdani i gynyddu lefel yr aelodau sy'n cael eu recriwtio.


3.3 Fel nodwyd o'r blaen, mynychodd TPC yr Eisteddfod Genedlaethol ym Mhontypridd yn ogystal â'r Ffair Aeaf yn Llanelwedd.


3.4 Mae'n rhy gynnar i ddweud a fydd mynd i ddigwyddiadau o'r fath yn cael yr effaith a ddymunir, er hynny, byddwn yn parhau â'n hymgyrch recriwtio yn ogystal â cheisio codi proffil TPC yn y flwyddyn i ddod.

3.5 Mae'r Tribiwnlys wedi'i ymrwymo o hyd i gynyddu ei aelodaeth a bydd yn parhau i redeg ymgyrchoedd wyneb yn wyneb a thrwy ddefnyddio offer fel fideos recriwtio ar ei wefan a llwyfannau cyfryngau cymdeithasol i'r dyfodol.

3.6 Trwy roi'r strategaethau hyn ar waith, nod y Tribiwnlys yw defnyddio ei adnoddau'n effeithlon i roi hwb i'r ymdrechion recriwtio a sicrhau bod ei dasgau ailbrisio yn y dyfodol yn cael eu rheoli'n effeithiol.

3.7 Mae'r newidiadau bach yn yr aelodaeth eleni wedi esgor ar un newid bychan i'r proffil oedran cyffredinol. Daw'r newid mwyaf canfyddadwy yn y cydbwysedd rhywedd; o'r 62 aelod, mae 46 yn ddynion (74%) ac 16 yn fenywod (26%), sy'n dangos anghydbwysedd rhywedd sylweddol o blaid cynrychiolaeth dynion. *[gw. Ffigur 1 isod]*






*Ffigur 1*

3.8 Mae 31% o'r aelodath yn rhugl yn y Gymraeg; dyma gynnydd ar ffigur y llynedd o 28%.

***TG***

3.9 Mae wedi bod yn flwyddyn brysur i staff TG TPC. Un o'r cyflawniadau mwyaf oedd y porth ar-lein, ar gyfer cofrestru apelau Rhestr Ardrethu 2023, yn mynd yn fyw. Mae'r porth hwn yn gwbl ddwyieithog sy'n caniatáu i apelyddion gofrestru apelau, gan ddefnyddio eu dewis iaith, ar-lein yn unol â'r hyn sy'n ofynnol o dan y Ddeddfwriaeth gyfredol.

***Hyfforddiant***

3.10 Mae TPC wedi cynyddu ei raglen hyfforddi i sicrhau ymgysylltiad yr aelodau yn ystod cyfnod pan oedd lefelau apelau yn lleihau.

3.11 Mae'r sesiynau hyfforddi yn ystod y flwyddyn wedi canolbwyntio ar hybu arfer orau mewn gwrandawiadau tribiwnlys, gan roi sylw penodol i gynnal gwrandawiadau ynghyd â chodi ymwybyddiaeth o gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant i ddefnyddwyr tribiwnlys. Mae'r mentrau allweddol yn cynnwys:

- **Diwrnod Hyfforddi Aelodau Cymru-Gyfan:** Diwrnod hyfforddi cynhwysfawr ar gyfer aelodau ar draws Cymru.
- **Seminar Cadeiryddion:** Seminar 2 ddiwrnod clir ei ffocws ar gyfer cadeiryddion yn benodol.
- **Cyfarfodydd Rheolaidd o'r Cadeiryddion:** rhaglen o gyfarfodydd rheolaidd i gadeiryddion er mwyn hwyluso datblygu a chyfathrebu parhaus.

3.12 Yn y gorffennol, mae TPC wedi cael llwyddiant cyfyngedig wrth gynnal cyfarfodydd hybrid ac mae wedi bod yn arbrofi gyda defnyddio ffrydio byw yn ei sesiynau hyfforddi. Y gobaith yw y bydd modd datblygu hyn ymhellach ac yn y dyfodol y bydd aelodau'n medru cymryd rhan gyflawn yn y digwyddiadau hyn hyd yn oed pan fyddan nhw'n eu mynychu o bell. Er hynny, mae'n

ddyddiau cynnar o hyd, a hyd yn hyn, dydyn ni ddim yn gwybod yn llawn pa fanteision ac anfanteision a ddaw yn sgil hyn eto.

3.13 Ynglŷn â hyfforddiant staff, mae 3 Chlerc a swyddog Gweinyddol yn gwneud yr astudiaethau IRRV Tech. Yn ogystal â chymwysterau proffesiynol, cefnogir datblygiad staff trwy gyfleoedd mewnol ac allanol.

3.14 Yn fewnol, mae Clercod Tribiwnlys yn cymryd rhan mewn cyfarfodydd "Ymarferwyr" bob yn ail fis sy'n hybu deialog agored a chyd-sgwrsio proffesiynol.

3.15 Yn allanol, mae staff yn elwa o webinarau a seminarau sy'n cael eu harwain gan arbenigwyr mawr eu parch yn y diwydiant.

3.16 Yn y bôn, mae ein hymrwymiad i hyfforddiant yn tanlinellu ein buddsoddiad ehangach yn ein pobl.

3.17 Trwy ddysgu parhaus, ymdrechwn i:

- Gwella sgiliau presennol
- Cynyddu cynhyrchedd
- Gwella cadw staff ac aelodau
- Cefnogi bod yn hyblyg o ran newidiadau yn y diwydiant
- Calonogi staff

## 4 Cyngor Llywodraethu

4.1 Mae datganiad llywodraethu'r Tribiwnlys ar **dudalen 18** yr adroddiad hwn.

4.2 Arweinir y Cyngor Llywodraethu gan Lywydd y Tribiwnlys, Carol Cobert.

4.3 Deiliaid eraill y Cyngor yn ystod y flwyddyn oedd:

| | | |
|---|---|---|
| Mr David Evans | - | Cynrychiolydd Cenedlaethol |
| Mr Rhys Prytherch | - | Cynrychiolydd Cenedlaethol |
| Mr David Subacchi | | Cynrychiolydd Cenedlaethol |

4.4 Dechreuwyd y broses enwebu ar ddiwedd blwyddyn yr adroddiad hwn ar gyfer Cynrychiolwyr Cenedlaethol gan fod cyfnodau'r 3 deiliad presennol yn y swydd yn dod i ben eleni. Yn drist iawn penderfynodd Mr Rhys Prytherch beidio ag ailymgeisio am y swydd hon. Yn ystod ei amser ar y Cyngor Llywodraethu, cyfrannodd Mr Prytherch yn frwd ac mewn ffordd werthfawr ym mhob un mater. Gwelir eisiau ei gyfraniad yn fawr.

4.5 Tri enwebiad yn unig a dderbyniwyd, a olygai nad oedd angen etholiad a bydd y 3 enwebai, Mr David Evans, Mr David Subacchi a Mr Thomas Wyn Jones yn dechrau yn eu swyddi o 1 Ebrill 2025.

4.6 Fel yr adroddwyd y llynedd daeth cyfnod ein penodai Llywodraeth Cymru yn y swydd i ben ym mis Rhagfyr 2023. Adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn nid oes gan y Cyngor Llywodraethu Gynrychiolydd Llywodraeth Cymru. Y gobaith yw gwneud o leiaf un penodiad yn ystod 2025.

4.7 Yn ystod y flwyddyn adrodd hon, cwrddodd y Cyngor Llywodraethu 4 gwaith, Gorffennaf, Hydref, Ionawr, a Mawrth. Roedd cyfarfodydd Ionawr a Mawrth yn cynnwys paneli penodi.

4.8 Digwyddiadau wyneb-yn-wyneb oedd y rhain a gynhaliwyd yn y Drenewydd.

## 5 Staffio

5.1 Agorodd y flwyddyn gyda 17 swyddog amser llawn mewn swyddi (2 yn y Tîm Rheoli Gweithredol, 12 yn Nhîm y Clercod Tribiwnlys a 3 yn y Tîm Cymorth Gweinyddol).

5.2 Ym mis Gorffennaf 2024 dechreuodd dau aelod newydd o staff yn eu swyddi gyda TPC. Christopher Richards a gymerodd swydd Clerc Tribiwnlys a Poppy Reynish a lenwodd swydd wag Swyddog Gweinyddol.


5.3 Ym mis Ionawr 2025, gadawodd Daniel Owen TPC wrth iddo fe a'i bartner symud i Awstralia.

5.4 Ym mis Chwefror 2025, ymunodd Ammar Quassim â TPC fel Swyddog Gweinyddu a Chymorth TG dan Hyfforddiant. Cyflwynwyd y swydd hon sydd newydd ei chreu er mwyn cryfhau ein gallu TG mewnol a helpu i liniaru'r risgiau a gysylltir â gweithredu system TG arunig gydag adnoddau technegol cyfyngedig.

5.5 Ym mis Mawrth gwelwyd Richard Williams yn ymddiswyddo. Gadawodd TPC er mwyn derbyn swydd Clerc y Dref yn y Trallwng.

5.6 Gwaetha'r modd, mae wedi bod yn flwyddyn ansefydlog iawn cyn belled ag y mae staffio yn y cwestiwn.

5.7 Dangosir y sefyllfa staffio ar ddiwedd y flwyddyn yn y cynllun trefniadaeth isod:




5.8 Mae'r penodiadau newydd yn mynd rhywfaint o'r ffordd tuag at ddiogelu'r gwasanaeth at y dyfodol a lliniaru'r risgiau a nodwyd yn y gofrestr risg trefniadaethol a gynhwysir yng nghynllun gweithredol TPC.

5.9 Ar ôl colli dau Glerc Tribiwnlys mewn cyfnod o amser mor fyr, bydd angen recriwtio pellach yn mlwyddyn yr adroddiad nesaf [2025/26]. Fel y nodwyd

mewn adroddiadau blaenorol, gall hyfforddi Clercod gymryd cyfnod sylweddol o amser a theimlir bod angen hyd at ddwy flynedd ar ymgeiswyr newydd er mwyn iddynt ddod yn gwbl gymwys.

5.10 Bydd penodi staff yn gynnar yn 2026 yn sicrhau y gall TPC roi digon o amser i Glercod newydd gael eu hyfforddi, gan sicrhau bod ganddynt yr wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i ddelio ag ailbrisiad y Dreth Gyngor a gynllunir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer 2028.

5.11 Yn ystod y flwyddyn adrodd hon, gweithredodd TPC raglen hyfforddi gynhwysfawr i wella sgiliau a gwybodaeth staff. Roedd y prif weithgareddau yn cynnwys:

- **Cyfarfodydd Ymarferwyr:** Cynhaliwyd sesiynau i dîm y Clercod fynd i'r afael â materion ymarferol a gwella effeithlondeb gweithredol. Roedd hyn hefyd yn fodd o sicrhau bod pob Clerc yn gyfarwydd â'r arferion a'r rheoliadau diweddaraf.
- **Digwyddiadau Hyfforddiant Staff Cyfan:** cynhaliwyd 2 ddigwyddiad hyfforddi. Roedd y digwyddiadau hyn yn cynnwys materion lles a digwyddiadau adeiladu tîm.
- **Cyrsiau Datblygiad Proffesiynol:** ymrestrodd 2 aelod staff arall ar gyrsiau IRRV Tech i ychwanegu at eu cymwysterau proffesiynol.
- **Hyfforddiant Arbenigol:** cymerodd nifer o aelodau staff ran mewn cyrsiau IRRV ar-lein.
- **Mynychu Cynadleddau:** Mynychodd aelodau staff Gynhadledd Wanwyn yr IRRV yn Milton Keynes a Chynhadledd yr Hydref yn Telford yn 2024, gan ganiatáu iddynt rwydweithio a chael mewnwelediad gan y gweithwyr proffesiynol uchel eu parch hyn yn y diwydiant.

5.12 Fel dywedwyd yn barod yn yr adroddiad hwn, mae'r mentrau hyn yn adlewyrchu ymrwymiad TPC i ddatblygiad proffesiynol parhaus a buddsoddi yn y staff, gan sicrhau safonau gwasanaeth uchel i'r cyhoedd.

5.13 Am yr ail flwyddyn yn olynol nid oedd cofnod salwch staff y Tribiwnlys yn cwrdd â'r KPI a osodwyd gan TPC, h.y. llai na 5 diwrnod o absenoldeb salwch fesul aelod staff. Gwaetha'r modd, eleni, nifer cyfartalog y dyddiau absenoldeb salwch fesul aelod staff oedd tua 7.6 dydd. Dylid nodi bod y ffigur hwn yn well na'r flwyddyn adrodd flaenorol pan mai 13 oedd cyfanswm y dyddiau fesul aelod staff.

5.14 Mae’r ffigur hwn wedi’i sgiwio, ar y cyfan, gan salwch staff tymor hir. Yn anad dim, nid oedd absenoldeb salwch o gwbl gan hanner yr aelodau staff FTE (cyfwerth ag amser llawn) yn ystod y flwyddyn hon.

## 6 Ystadau, cyfleusterau a thechnoleg

6.1 Mae gan y Tribiwnlys 1 swyddfa (yng Nghasnewydd). Fe'i delir ar les breifat a ddaeth i ben ym mis Hydref 2024. Mae'r Tribiwnlys a'i ragflaenwyr wedi bod yn yr adeilad ers y 1980au. Cafodd ei ailwampio'n sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae'n cynnwys prif swyddfa'r Tribiwnlys a'i ganolfan weinyddol; yn ogystal â hynny, mae'n gartref i 1 brif ystafell wrandawiadau (sydd hefyd yn cael ei defnyddio at ddibenion hyfforddi staff) ac 1 ystafell wrandawiadau / ystafell fwrdd fach. Bellach, mae 12 aelod staff wedi'u lleoli yno. Mae gweddill y staff yn gweithio o gartref. Mae'r Tribiwnlys yn llogi mannau cyfarfod allanol mewn rhannau eraill o'r wlad pan fo angen at ddibenion gwrandawiadau.

6.2 Yn fuan cyn i les Casnewydd ddod i ben, gofynnodd LIC i TPC archwilio'r posibilrwydd o symud i eiddo o fewn ei hystad. Aeth Simon Hill a finnau i weld swyddfeydd eraill ar gyrion Casnewydd ynghyd â Cathy Johnson o'n tîm noddi. Fodd bynnag, er bod manteision i'r eiddo, teimlwyd yn gyffredinol nad oedd yn addas ar gyfer anghenion TPC ac aeth trafodaethau am les bellach i'w swyddfeydd presennol yn Nghasnewydd yn eu blaen.

6.3 Mae'r Tribiwnlys yn rhedeg system ffôn gwmwl dros y rhyngrwyd fel bod modd ateb a throsglwyddo galwadau mewnol ac allanol yn hawdd rhwng staff yn y swyddfa a staff sy'n gweithio o bell. Mae cyfrif busnes Microsoft 365 yn darparu cyfleusterau cefn swyddfa safonol, gan gynnwys ebost. Mae system rheoli apelau'r Tribiwnlys wedi cael ei datblygu'n fewnol gyda chontractiwr datblygu TG annibynnol, Mark Rastin; mae'n storio ar gwmwl ac mae hynny'n cael ei ddrychweddu ar storfa fewnol wrth gefn. Mae byrddau gwaith a gliniaduron y staff yn gymharol newydd ac maent yn rhedeg system weithredu Windows 11 Microsoft.

6.4 Yn ystod Hydref 2024, mynychodd Mark Rastin, ein datblygwr TG, Simon Hill a'r Tîm TG Ginio Gwobrwyo IRRV ar ôl cyrraedd y rownd derfynol yn y categori Arloesi yng Ngwobrau Perfformiad IRRV am eu gwaith yn datblygu cronfa ddata bwrpasol. Er nad oeddynt yn llwyddiannus y tro yma, fe dderbynion nhw dystysgrif yn cydnabod eu holl waith caled.

6.5 Mae'n dda gen i adrodd ein bod bellach yng ngham olaf y datblygiad iPad fydd yn galluogi'r staff a'r aelodau i ddefnyddio'r cyfarpar yma wrth drin achosion mewn Tribiwnlys.

6.6 Bellach, mae'r ap a ddatblygwyd gan Mark Rastin ar gyfer rheoli achosion, wedi derbyn cymeradwyaeth derfynol gan Apple. Bydd yr ap yma yn galluogi'r staff a'r aelodau i fynd at ddogfennau tribiwnlys sy'n ymwneud â'r gwrandawiadau a neilltuwyd iddynt o bell.

6.7 Cynhaliwyd hyfforddiant staff ar gyfer yr iPads ym mis Chwefror 2025, gyda hyfforddiant i'r aelodau ar y gweill. Unwaith y caiff ei weithredu'n llawn, disgwylir y bydd yr ap yn lleihau ôl troed carbon TPC yn sylweddol trwy leihau'r angen am ddogfennau wedi'u hargraffu yn ogystal â chryfhau ymrwymiad TPC i Ddiogelu Data.

## Cyllid

6.8 Derbyniodd y Tribiwnlys ei ddyraniad cyllideb mwy ar ddechrau 2024, sef £1,900,000. Daeth y cynnydd o ganlyniad i'r cais am gyllideb i Lywodraeth Cymru (LIC) wrth ragweld ailbrisio'r Dreth Gyngor.

6.9 Daeth cyfanswm gwariant y flwyddyn i oddeutu **£1,360,000**, yn sylweddol is na'r gyllideb a ddyrannwyd. Roedd costau staffio yn cyfrif am **71.23%** o'r holl wariant, cynnydd o **68.41%** yn y flwyddyn flaenorol. Mewn cyferbyniad â hynny, aeth costau rhedeg gweithredol i lawr i **28.77%** o **31.59%**. Dychwelwyd yr arian dros ben o'r gyllideb, **£542,930**, i Lywodraeth Cymru.

6.10 Cafwyd y tanwariant yn bennaf oherwydd gohirio ailbrisio'r Dreth Gyngor, oedd i fod i ddigwydd yn 2025 ond sydd bellach wedi'i aildrefnu ar gyfer 2028. O ganlyniad, ni recriwtiodd y Tribiwnlys y staff ychwanegol a ragwelwyd yn wreiddiol, ac felly nid oedd costau cysylltiedig ynghlwm, fel hyfforddiant a chyfarpar TG.

6.11 Yn dilyn y tanwariant yn 2024-25, roedd TPC yn pryderu y gallai LIC leihau ei chyllideb waelodlin. Fodd bynnag, cafwyd cadarnhad y bydd y dyraniad gwaelodlin yn cael ei gadw ar £1,900,000.

6.12 Ar ben hynny, yn dilyn **Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2025–26**, cadarnhawyd y câi TPC gyllideb waelodlin ddiwygiedig o £1,925,000 gan ddechrau o 1 Ebrill 2025. Bwriedir y cynnydd hwn i gefnogi codiadau cyflog a ragwelir yn ystod y flwyddyn i ddod.

6.13 Mae'r cyllid ychwanegol hwn yn hanfodol i ddiogelu'r corff yn y dyfodol a sicrhau ei fod wedi'i arfogi i reoli'r cynnydd disgwyliedig yn nifer yr apelau yn dilyn Ailbrisiadau AAN a Threth Gyngor.

6.14 Dadansoddiad o wariant TPC ar gyfer 2024-25;

| Maes Gwariant | £ | % |
|---|---|---|
| Costau Staffio | 966,672 | 50.88% |
| Costau Gweinyddu | 390,398 | 20.55% |
| Cyfanswm a Wariwyd | 1,357,070 | 71.43% |
| Tanwariant | 542,930 | 28.57% |
| Cyllideb | 1,900,000 | 100% |

# Datganiadau

**(yn ofynnol o dan Ddogfen Fframwaith TPC – Llywodraeth Cymru)**

**Datganiad Llywodraethu**

Llywodraethir Tribiwnlys Prisio Cymru gan ei Gyngor Llywodraethu, sy'n cynnwys:

- Llywydd y Tribiwnlys
- y tri Chynrychiolydd Cenedlaethol
- ac, os y'u penodir, hyd at dri pherson a benodir gan Lywodraeth Cymru.

Rhagnodir y Cyngor a'i gyfansoddiad gan Reoliadau Tribiwnlys Prisio Cymru 2010 [WSI 2010 Rhif 713 (W69)], fel y'i diwygiwyd gan Reoliadau Tribiwnlys Prisio Cymru (Diwygiad) [WSI 2017 Rhif 941 (W 234) & SI 2023 Rhif 775 (W121)].

Rhaid i'r Llywydd a'r Cynrychiolwyr Cenedlaethol fod yn aelodau o'r Tribiwnlys a chânt eu hethol gan aelodaeth y Tribiwnlys am gyfnod o dair blynedd. Cânt sefyll i gael eu hailethol ar ddiwedd tymor.

Manylir ar gyfrifoldebau cyfunol y Cyngor Llywodraethu, cyfrifoldebau personol unigol y Llywydd, a chyfrifoldebau unigol pob Cynrychiolydd Cenedlaethol a Phenodai Llywodraeth Cymru yn Nogfen Fframwaith Tribiwnlys Prisio Cymru, a lofnodir o dan gymeradwyaeth Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol gan un o swyddogion Llywodraeth Cymru a Phrif Swyddog Gweithredol y Tribiwnlys Prisio.  Mae Prif Swyddog Gweithredol y Tribiwnlys yn llofnodi ar ran y Tribiwnlys ar ôl derbyn cymeradwyaeth gan y Cyngor Llywodraethu.

Mae Cyngor Llywodraethu’r Tribiwnlys yn cyflawni ei swyddogaethau mewn ffordd sy'n gyson ag Egwyddorion Llywodraethu sy'n Canolbwyntio ar Ddinesydd Llywodraeth Cymru, sy'n ymgorffori Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus a nodir gan y Pwyllgor Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus (Pwyllgor Nolan).



Carolyn Dawson
Prif Weithredwr - TPC

**Datganiad Cyfrifoldebau Swyddog Cyfrifyddu**

Prif Weithredwr Tribiwnlys Prisio Cymru sy'n gyfrifol am sicrhau bod adnoddau ariannol y Tribiwnlys yn cael eu rheoli yn unol â'r egwyddorion a'r gofynion rheoli ariannol penodol a nodir yn Nogfen Fframwaith Tribiwnlys Prisio Cymru a dogfennau ariannol a chofnodion Llywodraeth Cymru a'r Cynulliad y cyfeirir atynt yn y Ddogfen Fframwaith.

Mae'r Prif Weithredwr yn atebol yn bersonol i'r Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol dynodedig o fewn adran Llywodraeth Cymru sy'n noddi'r Tribiwnlys. Mae'r Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol yn ei dro yn atebol i Lywodraeth Cymru a'r Cynulliad.

Caiff y Prif Weithredwr ddirprwyo, i weithwyr y Tribiwnlys, weinyddu eu cyfrifoldebau o ddydd i ddydd ond mae'n parhau'n bersonol gyfrifol ac yn atebol amdanynt.



Carolyn Dawson
Prif Weithredwr TPC

# Atodiadau

| | |
|---|---|
| **A** | **Niferoedd cyfarfodydd tribiwnlys ac achosion a restrwyd** |
| **B** | **Data Clirio Apelau 2024/25** |
| **C** | **Dangosyddion Perfformiad Allweddol (KPIs)– tabl canlyniadau** |
| **D** | **Diffiniadau KPI ar gyfer 2024/25** |
| **E** | **Gwariant Tribiwnlys Prisio Cymru 2024/2025** |
| **F** | **Strwythur Trefniadaethol** |

**Niferoedd cyfarfodydd tribiwnlys ac achosion a restrwyd** (ynghyd â chyfartaleddau fesul aelod o dîm y Clercod Tribiwnlys): **Atodiad A**

**Nifer y cyfarfodydd tribiwnlys**

Nifer o aelodau yn nhîm y Clercod Tribiwnlys = 10.8

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ebrill | 10 | | | | | | |
| Mai | 11 | **21** | at ddiwedd Mai | 1.94 | fesul clerc | 0.97 | fesul clerc y mis |
| Mehefin | 14 | | | | | | |
| Gorffennaf | 12 | **47** | at ddiwedd Gorffennaf | 4.35 | fesul clerc | 1.09 | fesul clerc y mis |
| Awst | 12 | | | | | | |
| Medi | 16 | **75** | at ddiwedd Medi | 6.94 | fesul clerc | 1.16 | fesul clerc y mis |
| Hydref | 16 | | | | | | |
| Tachwedd | 12 | **103** | at ddiwedd Tachwedd | 9.54 | fesul clerc | 1.19 | fesul clerc y mis |
| Rhagfyr | 6 | | | | | | |
| Ionawr | 10 | **119** | at ddiwedd Ionawr | 11.02 | fesul clerc | 1.10 | fesul clerc y mis |
| Chwefror | 10 | | | | | | |
| Mawrth | 10 | **139** | at ddiwedd Mawrth | 12.87 | fesul clerc | 1.07 | fesul clerc y mis |
| **CYFANSWM** | **139** | | | | | | |

| **Achosion a Restrwyd** | AAN 2023 | AAN 2017 | AAN Blaenorol | AAN Arbenigol | Rhestr TG | ADG | GDG | Hysbysiadau Cwblhau | Adolygiadau o Benderfyniad | CYFANSWM | Nifer ar gyfartaledd fesul clerc |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ebrill | 0 | 265 | 0 | 0 | 36 | 6 | 1 | 0 | 0 | 308 | 28.52 |
| Mai | 0 | 236 | 5 | 49 | 80 | 4 | 0 | 0 | 0 | 374 | 34.63 |
| Mehefin | 0 | 249 | 13 | 38 | 78 | 4 | 3 | 2 | 0 | 387 | 35.83 |
| Gorffennaf | 0 | 95 | 0 | 37 | 82 | 9 | 7 | 0 | 0 | 230 | 21.30 |
| Awst | 0 | 127 | 0 | 22 | 82 | 10 | 5 | 0 | 0 | 246 | 22.78 |
| Medi | 1 | 171 | 1 | 76 | 93 | 12 | 5 | 0 | 0 | 359 | 33.24 |
| Hydref | 0 | 140 | 3 | 31 | 80 | 12 | 6 | 0 | 0 | 272 | 25.19 |
| Tachwedd | 0 | 125 | 0 | 6 | 91 | 10 | 1 | 0 | 0 | 233 | 21.57 |
| Rhagfyr | 0 | 162 | 18 | 17 | 55 | 0 | 0 | 0 | 0 | 252 | 23.33 |
| Ionawr | 0 | 151 | 0 | 6 | 43 | 10 | 4 | 21 | 0 | 235 | 21.76 |
| Chwefror | 0 | 139 | 6 | 4 | 52 | 10 | 0 | 0 | 0 | 211 | 19.54 |
| Mawrth | 0 | 185 | 3 | 17 | 70 | 11 | 1 | 0 | 0 | 287 | 26.57 |
| **CYFANSWM** | **1** | **2045** | **49** | **303** | **842** | **98** | **33** | **23** | **0** | **3394** | **314.26** |

## Data Clirio Apelau 1 Ebrill 2024 i 31 Mawrth 2025 — Atodiad B

Ystadegau Apêl / Appeal statistics — 01/04/24 - 31/03/25

| **Treth Gyngor / Council Tax** | *D/Y* | *Derbyniwyd* | *Datryswyd* | *Penderfynwyd* | *C/Y* |
|---|---|---|---|---|---|
| | *B/F* | *Received* | *Settled* | *Decided* | *C/F* |
| Prisio / Valuation | 355 | 1967 | 1411 | 213 | 698 |
| Hysbysiad Annilysrwydd / Invalidity Notice | 4 | 1 | 2 | 3 | 0 |
| Hysbysiad Cosb / Penalty Notice | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Hysbysiad Cwblhau / Completion Notice | 2 | 1 | 3 | 0 | 0 |
| Atebolrwydd / Liability | 27 | 75 | 23 | 53 | 26 |
| Gostyngiad / Reduction | 21 | 12 | 8 | 20 | 5 |
| Adolygiad o benderfyniad / Decision reviews | 0 | 15 | 0 | 15 | 0 |
| **Cyfansymiau / Totals** | **409** | **2071** | **1447** | **304** | **729** |

| **Ardrethu Annomestig / Non-domestic Rating** | *D/Y* | *Derbyniwyd* | *Datryswyd* | *Penderfynwyd* | *C/Y* |
|---|---|---|---|---|---|
| | *B/F* | *Received* | *Settled* | *Decided* | *C/F* |
| Prisio / Valuation 2023 | 0 | 1 | 1 | 0 | 0 |
| Prisio / Valuation 2017 | 2529 | 55 | 1919 | 231 | 434 |
| Prisio / Valuation 2010 | 64 | 0 | 58 | 3 | 3 |
| Hysbysiad Annilysrwydd / Invalidity Notice (2017) | 7 | 0 | 0 | 2 | 5 |
| Hysbysiad Annilysrwydd / Invalidity Notice (2010) | 1 | 0 | 0 | 0 | 1 |
| Hysbysiad Cosb / Penalty Notice | 0 | 2 | 1 | 0 | 1 |
| Hysbysiad Cwblhau / Completion Notice | 0 | 21 | 21 | 0 | 0 |
| Adolygiad o benderfyniad / Decision reviews | 0 | 2 | 0 | 2 | 0 |
| **Cyfansymiau / Totals** | **2601** | **81** | **2000** | **238** | **444** |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Prif gyfansymiau / Grand totals** | 3010 | 2152 | 3447 | 542 | 1173 |

# Dangosyddion Perfformiad Allweddol --- tabl canlyniadau

**Atodiad C**

| Mesur perfformiad | 2024/25 | Canlyniad 2024/25 | Targed 2025/26 | Rheswm dros unrhyw newid targed / neu fanylion/gwybodaeth bellach |
|---|---|---|---|---|
| Rhestru unrhyw apêl rhestr ardrethu 2023 o fewn chwe mis ar ôl ei derbyn | Newydd 2024 | 100% | 95% | Bellach mae apelau yn cael eu cyflwyno'n uniongyrchol i TPC ac mae angen iddo wneud yn siŵr yr ymdrinnir â nhw mewn pryd. |
| Apelau AAN yn erbyn Rhestr Ardrethu 2023 i'w clirio o fewn 12 mis ar ôl eu cyflwyno i'r Tribiwnlys | Newydd 2024 | 100% | 95% | |
| Rhestru unrhyw apelau Treth Gyngor (prisio ac atebolrwydd) o fewn 6 mis ar ôl eu derbyn | Newydd 2024 | 73% | 95% | Rhestrwyd 691 apêl tro cyntaf y llynedd; cwrddodd 73% (503) â'r targed chwe mis. Cyflawnwyd hyn er gwaethaf dyblu'r cyflwyniadau a'r capasiti rhestru wedi'i haneru oherwydd rhoi system TG newydd y VOA ar waith. Mae'r canlyniadau yn dangos perfformiad cryf o dan bwysau gweithredol eithriadol. |
| Apelau Treth Gyngor (prisio ac atebolrwydd) i'w clirio o fewn 12 mis ar ôl eu cyflwyno i'r tribiwnlys | 95% | 90.1% | 95% | Roedd 171 o'r 1,736 o achosion a gliriwyd (9.9%) dros 12 mis oed. Cafodd cynnydd yn niferoedd yr apelau a chais i leihau rhestriadau (i gynorthwyo diweddaru system TG y VOA) effaith ar y prosesu. Y ffactorau hyn oedd y prif reswm dros fethu targed y KPI. |
| Cyhoeddir rhesymau ysgrifenedig am benderfyniad o fewn 28 diwrnod i ddiwedd gwrandawiad yr apêl | 95% | 96.4% | 95% | Cyhoeddwyd 19 allan o 525 penderfyniad (3.63%) y tu allan i'r targed 28 diwrnod. |
| Adolygiad AAN o geisiadau penderfyniad fel canran o achosion AAN a benderfynwyd | <0.50% | 0% | <0.50% | |
| Adolygiad PDG o geisiadau penderfyniad fel canran o achosion PDG a benderfynwyd | <2.0% | 1.9% | <2.0% | 4 cais o 216 o benderfyniadau. |
| Adolygiad ADG o geisiadau penderfyniad fel canran o achosion ADG a benderfynwyd | <5.0% | 9.6% | <5.0% | 7 cais o 73 o benderfyniadau. |
| Penderfyniadau a gyfeiriwyd at lysoedd uwch. | <0.50% | 0.2% | <0.5% | 1 atgyfeiriad o 525 o benderfyniadau. |
| Penderfyniadau sy'n destun cwyn gan bartïon | <1.0% | 0.4% | <1.0% | 2 gŵyn o 525 o benderfyniadau. |
| Nifer o honiadau â seiliau da iddynt a wnaed i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn erbyn y tribiwnlys | sero | sero | sero | |
| Nifer o faterion â seiliau da iddynt yn ymwneud â chydymffurfio â Safonau'r Gymraeg yn erbyn y tribiwnlys | sero | sero | sero | |
| Y ffigur cyfartalog blynyddol fesul gweithiwr o ran absenoldeb salwch i beidio â bod yn fwy na 5 diwrnod gwaith ar gyfer 80% canolog y dosbarthiad staff llawn. | <5 diwrnod | 7.6 diwrnod | <5 diwrnod | Mae'r ffigur wedi'i ystumio gan salwch staff tymor hir. Yn anad dim, nid oedd absenoldeb salwch gan hanner yr aelodau staff FTE (cyfwerth ag amser llawn). |

## Diffiniadau KPI ar gyfer 2024/25 — Atodiad D

> *Nodyn: Nid ystyriwyd bod unrhyw adolygu yn angenrheidiol i KPIs y flwyddyn flaenorol.*

**Diffiniadau KPI**

(a) 95% o apelau Rhestr Ardrethu 2023 i'w rhestru o fewn 6 ar ôl eu derbyn

(b) 95% o apelau Rhestr Ardrethu 2023 i'w clirio o fewn 12 mis ar ôl eu derbyn

(c) 95% o apelau Treth Gyngor i'w rhestru o fewn 6 mis ar ôl eu derbyn

(d) 95% o apelau Treth Gyngor (prisio ac atebolrwydd) i'w clirio o fewn 12 mis ar ôl eu cyflwyno i'r tribiwnlys

(e) Cyhoeddir 95% o'r holl resymau ysgrifenedig am benderfyniad o fewn 28 diwrnod i ddiwedd gwrandawiad yr apêl

(f) Adolygiad AAN o geisiadau penderfyniad i fod yn llai na 0.5% o'r achosion a benderfynwyd

(g) Adolygiad PDG o geisiadau penderfyniad i fod yn llai na 2.0% o'r achosion a benderfynwyd

(h) Adolygiad ADG o geisiadau penderfyniad i fod yn llai na 5.0% o'r achosion a benderfynwyd

(i) Llai na 0.5% o'r holl benderfyniadau i'w cyfeirio at lysoedd uwch

(j) Llai na 1.0% o'r holl benderfyniadau i fod yn destun cwyn gan bartïon

(k) Dim honiadau â seiliau da iddynt yn cael eu cyflwyno i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn erbyn y tribiwnlys

(l) Dim materion â seiliau da iddynt yn ymwneud â chydymffurfio â Safonau'r Gymraeg yn erbyn y tribiwnlys

(m) Nid yw'r ffigur cyfartalog blynyddol fesul gweithiwr o ran absenoldeb salwch i fod yn fwy na 5 diwrnod gwaith ar gyfer 80% canolog y dosbarthiad staff llawn

**Atodiad E**

| Maes gwariant<br>Area of expenditure | 2024/25 | | 2023/24 | |
|---|---|---|---|---|
| | Swm / Amount | Canran / Percentage | Swm / Amount | Canran / Percentage |
| Costau staff (ac eithrio pensiynau)<br>Staff costs (excluding pensions) | 813,705 | 59.96% | 621,758 | 58.19% |
| Costau pensiynau / Pension costs | 152,967 | 11.27% | 109,217 | 10.22% |
| **Is-gyfanswm / Subtotal** | **966,672** | **71.23%** | **730,975** | **68.41%** |
| Costau swyddfeydd / Office accommodation | 97,044 | 7.15% | 126,978 | 11.88% |
| Gwariant ar gyfrifiaduron / Computing | 107,563 | 7.93% | 90,812 | 8.50% |
| Gweinyddiaeth ganolog / Central administration | 66,030 | 4.86% | 58,377 | 5.46% |
| Tribiwnlysoedd / Tribunals | 20,742 | 1.53% | 20,175 | 1.89% |
| Llywodraethu / Governance | 7,216 | 0.53% | 2,662 | 0.25% |
| Hyfforddiant aelodau / Membership training | 38,223 | 2.82% | 10,938 | 1.02% |
| Hyfforddiant staff / Staff training | 53,580 | 3.95% | 27,643 | 2.59% |
| Ad-daliad benthyciad/ Loan repayment | 0 | 0.00% | 0 | 0% |
| **Is-gyfanswm / Subtotal** | **390,398** | **28.77%** | **337,585** | **31.59%** |
| **Cyfanswm / Total** | **1,357,070** | | **1,068,560** | |

**Atodiad F**

# CYNLLUN TREFNIADAETHOL

2024-2025

